# SWYDDOGOL

| GWYBODAETH POLISI | |
|---|---|
| Teitl | Polisi Rheoli Mynediad |
| Fersiwn | V2.0 |

| PERCHNOGAETH POLISI | |
|---|---|
| Noddwr Polisi | Cyfarwyddwr Strategaeth a Newid |
| Perchennog Polisi | Pennaeth Rheoli Gwybodaeth |
| Awdur Polisi | Swyddog Diogelwch Gwybodaeth y Llu |

Mae Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn croesawu sylwadau ac awgrymiadau gan y cyhoedd a staff ynghylch cynnwys a gweithrediad y polisi hwn. Os oes gennych unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'r polisi hwn, ysgrifennwch at**Uned Llywodraethu Gwybodaeth Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig 2ilLawr, 3 Sgwâr Callaghan Caerdydd, CF10 5BT**neu e-bostiwch:FOI@btp.pnn.police.uk

## Pwrpas y Polisi

Mae'r polisi hwn yn mynd i'r afael â'r risg o fynediad heb awdurdod i, a chamddefnydd canlyniadol o, asedau gwybodaeth ddirgel plismona cenedlaethol ac Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTP). Yr amcan yw diwallu gofynion penodol y Swyddfa Gartref a'r rhai chyfreithiol i gyflawni rheolaethau effeithiol ac archwiliadwy ynghylch pwy sy'n gallu cyrchu systemau polisi cenedlaethol a systemau technoleg BTP, a phryd y gellir caniatáu'r mynediad hwnnw ai peidio. Mae'r polisi'n darparu carreg sylfaen unrhyw reol neu reolaeth ddilysu ac awdurdodi ar sail rôl yn seiliedig ar fynediad defnyddwyr

## I bwy mae'r polisi hwn yn berthnasol

Mae'r polisi hwn yn cyfeirio at y cyflogeion hynny (rhai parhaol a thymor penodol) a all fod yn ymuno â BTP am y tro cyntaf (cychwynwyr), sy'n symud i swydd newydd gyda'r Llu (symudwyr) neu sy'n gadael y Llu ar ôl cyfnod o gyflogaeth (ymadawyr). Bydd y polisi hwn hefyd yn berthnasol i staff dros dro, gwirfoddolwyr a thrydydd partïon sydd angen mynediad at systemau technoleg neu asedau gwybodaeth.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

## Egwyddorion

Mae BTP yn darparu mynediad diogel i'w gyflogeion i systemau technoleg BTP, asedau gwybodaeth BTP a systemau TG yr heddlu cenedlaethol i gyflawni eu rolau'n effeithiol. Mae'n ofyniad trosfwaol bod hawliau mynediad cyflogeion yn cael eu cynnal mewn modd cywir ac amserol. Mae'r gofyniad hwn yn sylfaenol i briodoleddau llywodraethu data megis ansawdd, archwiliadwyedd, cywirdeb a diogelwch. Mae'r cyfrifoldeb dros sicrhau bod cyflogeion yn cynnal mynediad priodol i systemau, data ac asedau, yn unol â'u rôl, yn gorwedd o ddydd i ddydd gyda rheolwyr llinell, ond yn y pen draw gyda'r Perchnogion Asedau Gwybodaeth (IAO) a'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth ( SIRO).

## Monitro ac Adolygu

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob 3 blynedd ac mewn ymateb i unrhyw newidiadau sylweddol mewn deddfwriaeth neu bwrpas busnes

## Polisïau/Dogfennau Cysylltiedig

Strategaeth Rheoli Risg Gwybodaeth BTP

Rhwydwaith Heddlu Diogelwch HMG

Cod Cysylltu PSN Swyddfa'r Cabinet

Strategaeth Dyfais Defnyddiwr Terfynol Swyddfa'r Cabinet/CESG: Fframwaith a Rheolaethau Diogelwch

Deddf Diogelu Data

Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron

Systemau Rheoli Diogelwch Gwybodaeth ISO/IEC 27001